Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Gwynedd a Môn

Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor
LL57 4HJ

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan


Estyn, Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Gwynedd a Môn

<table>
<tr><td>Enw'r bartneriaeth</td><td>Partneriaeth Dysgu Gwynedd a Môn</td></tr>
<tr><td>Awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r bartneriaeth a phartneriaid cyflwyno allweddol</td><td>Caiff Partneriaeth Dysgu Gwynedd a Môn ei chadeirio gan Grŵp Llandrillo Menai ac mae'n cynnwys:<br>• Cyngor Gwynedd<br>• Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• Addysg Oedolion Cymru<br>Y ddau brif bartner cyflwyno adeg yr arolygiad yw Grŵp Llandrillo Menai (GLlM) ac Addysg Oedolion Cymru (AOC).</td></tr>
<tr><td>Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf</td><td>Dim newidiadau strwythurol mawr ers yr arolygiad diwethaf.</td></tr>
<tr><td>Nifer y dysgwyr adeg yr arolygiad</td><td>Adeg yr arolygiad, roedd 551 o ddysgwyr wedi ymrestru gyda Grŵp Llandrillo Menai, a 251 o ddysgwyr wedi ymrestru gydag Addysg Oedolion Cymru.</td></tr>
<tr><td>Nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd lawn flaenorol</td><td>Yn y flwyddyn academaidd 2023-2024, roedd gan y bartneriaeth y niferoedd canlynol o ddysgwyr, mewn darpariaeth oedd yn cynnwys llwybrau cyllido amrywiol.
<table>
<tr><th>Math o ddarpariaeth</th><th>Dysgwyr</th></tr>
<tr><td>Darpariaeth wedi'i hariannu trwy GLlM a/neu ddyraniad cyllid addysg bellach ran-amser AOC</td><td>888</td></tr>
<tr><td>Darpariaeth SSIE wedi'i hariannu trwy GLlM a/neu ddyraniad addysg bellach AOC</td><td>Amser llawn 114<br>Rhan-amser 75</td></tr>
<tr><td>Darpariaeth wedi'i hariannu trwy'r Grant Dysgu Cymunedol</td><td>398</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>1355</td></tr>
</table>
.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Manylion am raglenni'r bartneriaeth, o ran cyrsiau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru (SSIE a medrau sylfaenol) ac ystod o gyrsiau eraill (hamdden / adfer costau) | Yn ystod 2023-2024, roedd gan y bartneriaeth 398 o ddysgwyr unigryw a oedd yn ymgysylltu â dosbarthiadau wedi'u hariannu gan ddefnyddio'r Grant Dysgu Cymunedol a roddodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Roedd y dosbarthiadau hyn yn cael eu cyflwyno gan Grŵp Llandrillo Menai.<br><br>Roedd 566 pellach o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau dysgu oedolion a SSIE wedi'u hariannu gan ddefnyddio cyllid addysg bellach Grŵp Llandrillo Menai a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Roedd 493 o ddysgwyr unigryw yn ychwanegol ledled y ddwy sir yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau gydag Addysg Oedolion Cymru gan ddefnyddio'r cyllid a gafodd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r ddau ddarparwr yn is-gontractio cyfran fach o'u cyflwyno, er enghraifft i gyflwyno gwaith coed gwyrdd ar gyfer cyrsiau lles trwy Ynys Twca a chyrsiau bwyd a maeth trwy dîm dieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<br><br>Mae'r map isod yn dangos lleoliad ei leoliadau dysgu: |



<table>
<tr>
<td>Ynglŷn â'r dysgwyr ar gyrsiau'r bartneriaeth</td>
<td>Yn 2023 – 20024, dyma oedd proffil oedran dysgwyr y bartneriaeth:
<table>
<tr><th>Oedran</th><th>Cyfran</th></tr>
<tr><td>16-19</td><td>4%</td></tr>
<tr><td>20-24</td><td>6%</td></tr>
<tr><td>25-40</td><td>26%</td></tr>
<tr><td>41-60</td><td>28%</td></tr>
<tr><td>Dros 60</td><td>36%</td></tr>
</table>
Roedd 73% o ddysgwyr y bartneriaeth yn fenywod.
Disgrifiodd 24% o ddysgwyr eu hunain fel siaradwr Cymraeg rhugl, 16.5% fel siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl, a 59.5% fel rhywun nad yw'n siaradwr Cymraeg.
Roedd 24% o ddysgwyr yn byw mewn ardaloedd codau post yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (y ddau gwintel uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - MALlC). </td>
</tr>
<tr>
<td>Ynglŷn â'r boblogaeth yn ardal y bartneriaeth</td>
<td> Yn ôl data cyfrifiad diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, poblogaeth trigolion Gwynedd yn 2021 oedd 117,400, sy'n cynrychioli 3.8% o boblogaeth Cymru. Poblogaeth Ynys Môn oedd 68,900, sef 2.2% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mewn cyferbyniad â'r cynnydd ledled Cymru, mae poblogaeth y ddwy ardal wedi dirywio ers cyfrifiad 2011. Mae ardaloedd gwledig eang sy'n denau eu poblogaeth yn y ddwy sir. Mae trwch y boblogaeth ar ei uchaf ym Mangor a Chaernarfon ar ochr ogleddol Gwynedd, ac yn nhrefi Caergybi a Llangefni ar Ynys Môn, yn ogystal â'r pentrefi ger y ddwy bont sy'n cysylltu'r ynys â'r tir mawr.
Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn gryf yn y ddwy sir; cyfran y boblogaeth sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (Rhagfyr 2024) yw 76% yng Ngwynedd a 63% ar Ynys Môn, y mae'r naill a'r llall gryn dipyn yn uwch na'r ffigur ledled Cymru, sef 27%.
Dangosodd cyfrifiad 2021 fod cyfran gymharol uchel o drigolion Ynys Môn yn 65 oed ac yn hŷn, sef 26% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 21%; y ffigur cyfatebol ar gyfer </td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Gwynedd oedd 23%. Roedd cyfran y trigolion rhwng 15 a 64 oed yn y ddwy sir islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 62%; ar gyfer Ynys Môn, roedd hyn yn 58%, ond ychydig yn uwch yng Ngwynedd, sef 61%.<br>Dangosodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn 2019 fod y ddwy sir yn llai difreintiedig na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar y cyfan. Canran yr ardaloedd o fewn y ddwy sir a oedd ymhlith y 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd 34% yng Ngwynedd, a 39% ar Ynys Môn.<br>Mae canlyniadau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol/Arolwg Llafurlu Lleol Cymru yn dangos bod cyfran y trigolion oedran gweithio sydd â chymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch yng Ngwynedd ac Ynys Môn, sef 88.1% ac 89.1% yn y drefn honno, yn well na chyfartaledd Cymru, sef 87.6%. Yn y ddwy sir, mae gan lai na'r cyfartaledd o oedolion oedran gweithio ddim cymwysterau ffurfiol; 4.0% yng Ngwynedd a 6.4% ar Ynys Môn, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 7.9%. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/11/2019 |

## Crynodeb

Ar draws y bartneriaeth, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol neu alwedigaethol. Mae llawer o ddysgwyr 'Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill' (SSIE) yn datblygu medrau llafaredd cryf, yn ynganu'n glir ac yn defnyddio geirfa a gramadeg gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dweud bod eu hyder, eu cymhelliant a'u hiechyd meddwl yn well o ganlyniad i ymgysylltu ag addysg. Maent yn gwerthfawrogi amgylcheddau dysgu sy'n gynhwysol, yn barchus ac yn emosiynol ddiogel, lle maent yn teimlo'n gyfforddus yn cymryd rhan.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio a chyflwyno sesiynau strwythuredig, cynhwysol a phwrpasol, wedi'u teilwra i anghenion, diddordebau a dyheadau unigol dysgwyr. Maent yn gwneud defnydd da o asesiadau cychwynnol ac yn sicrhau bod dysgwyr yn gweithio ar lefel sy'n briodol i'w gallu. Mae tiwtoriaid yn meithrin perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â dysgwyr ac yn eu hadnabod yn dda. Maent yn addasu darpariaeth fel mater o drefn i ddiwallu ystod eang o anghenion, ond mewn ychydig iawn o feysydd y ddarpariaeth, nid oes digon o wybodaeth ar gael i diwtoriaid am anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr ac mae hyn yn lleihau eu gallu i gynllunio ar gyfer y dysgwyr hyn.

Mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg rhugl ar draws y bartneriaeth yn manteisio ar eu darpariaeth naill ai'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mewn sesiynau dwyieithog, mae tiwtoriaid yn newid yn ddi-dor rhwng defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn dda ac yn gwneud defnydd da o ddeunyddiau addysgu, taflenni a chyflwyniadau dwyieithog. Rydym yn cynnwys ciplun ar gryfderau mewn addysgu a dysgu dwyieithog yn yr adroddiad.

Mae gan y bartneriaeth weledigaeth strategol glir gyda ffocws cryf ar ehangu mynediad at ddysgu oedolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a safleoedd yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae wedi gwneud defnydd effeithiol o gyllid allanol i gyflenwi ardaloedd gwledig fel neuaddau pentref â dodrefn modern a dyfeisiau digidol. O ganlyniad, gall mwy o ddysgwyr a darpar ddysgwyr elwa ar gyfleoedd dysgu yn eu hardal gyfagos, er bod y ddarpariaeth mewn rhannau o orllewin a de Gwynedd yn parhau i fod yn gyfyngedig oherwydd heriau mewn ardaloedd sy'n denau eu poblogaeth.

Rydym yn rhoi sylw i leoliadau dysgu canol tref Tŷ Cyfle, sy'n ganolfannau effeithiol ar gyfer cyflwyno cyrsiau medrau hanfodol a datblygiad personol, ond hefyd yn helpu addasu gofodau nad ydynt yn cael eu defnyddio i fod yn hybiau cymunedol bywiog.

Dywed ychydig o ddysgwyr eu bod yn cael anawsterau'n cael mynediad at wybodaeth am gyrsiau neu'n cofrestru, yn bennaf o ganlyniad i ddibyniaeth ar systemau digidol. Er bod

staff yn aml yn darparu cymorth i helpu dysgwyr, mae dulliau digidol yn unig yn parhau i fod yn rhwystr i ychydig o ddysgwyr.

Mae datblygiad proffesiynol ymatebol a pherthnasol ar gael i staff yn y ddau brif ddarparwr, ac maent yn cynnig hyfforddiant defnyddiol ar ystod o destunau, er nad ydynt yn gwneud defnydd llawn o gyfleoedd i rannu hyfforddiant proffesiynol rhwng darparwyr mewn pynciau sy'n cael eu cyflwyno gan y ddau bartner.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1. Gwella cydlyniad a hygyrchedd gwybodaeth am gyrsiau a phrosesau cofrestru, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau digidol neu y mae'n well ganddynt ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai digidol

A2. Datblygu cyfleoedd ar gyfer gwaith ar draws y bartneriaeth i gefnogi arfer gyson, cydweithio rhwng cymheiriaid, a rhannu dulliau effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Nid yw'r bartneriaeth mewn categori gweithgarwch dilynol, a bydd yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. Byddwn yn ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hymweliadau arolygwyr cyswllt rheolaidd.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Ar draws y bartneriaeth, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio a chyflwyno sesiynau strwythuredig, cynhwysol a phwrpasol, wedi'u teilwra i anghenion, diddordebau a dyheadau unigol dysgwyr. Maent yn gwneud defnydd da o asesiadau cychwynnol i nodi mannau cychwyn unigol dysgwyr a sicrhau bod dysgwyr yn gweithio ar lefel sy'n briodol i'w gallu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag angen dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn datblygu hyder a medrau cynyddol ar draws ystod eang o feysydd pwnc.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu alwedigaethol. Mewn sesiynau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau llafaredd cryf, gan ddangos ynganiad clir a geirfa a gramadeg gywir, ac yn aml yn symud ymlaen o lefelau cyn mynediad i lefelau uwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn hyderus ac yn cymhwyso gwybodaeth a medrau wedi eu caffael o'r newydd i gyd-destunau bywyd go iawn ystyrlon. Maent yn cadw ac yn cymhwyso geirfa dechnegol yn hyderus.

Ar gyrsiau digidol, mae llawer o ddysgwyr yn dangos gwelliant cryf yn eu medrau digidol, yn enwedig dysgwyr hŷn sy'n defnyddio'r medrau newydd hyn y maent wedi'u caffael i'w helpu â thasgau bob dydd fel cyfathrebu â'u teuluoedd ar-lein, cael mynediad at fancio a defnyddio awdurdodiad dau ffactor. Mae dysgwr ar gwrs 'cyflwyniad i daenlenni' yn siarad am sut bydd ei fedrau newydd yn ei gynorthwyo yn ei rôl fel trysorydd i grŵp cymunedol lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu, maent wedi eu cymell ac yn hapus i ddilyn eu cwrs, ac yn ymgysylltu'n llawn mewn sesiynau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn rhyngweithio'n barchus â'u tiwtoriaid a'u cyfoedion ac yn gweithio'n dda yn unigol ac mewn tasgau pâr a grŵp. Maent yn disgrifio'u hamgylchedd dysgu fel un croesawgar, cefnogol ac sy'n ffafriol i'w lles a datblygiad eu medrau.

Mae llawer o ddysgwyr SSIE yn gadarnhaol ran amlaf o lawer am y cymorth y byddant yn ei gael gan eu tiwtoriaid, nid yn unig ar gyfer eu datblygiad medrau iaith, ond hefyd y cymorth y maent yn ei gynnig i ddelio â materion bob dydd fel manteisio ar ofal iechyd neu gyfathrebu ag ysgol eu plant.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae tiwtoriaid yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig rheolaidd ac adeiladol sy'n helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu perfformiad, a gwella arno. Yn yr achosion

gorau, mae tiwtoriaid yn hwyluso'r defnydd o adborth ymhlith cyfoedion rhwng dysgwyr, gan wneud defnydd da o fentoriaid cymheiriaid i helpu dysgwyr eraill i wneud cynnydd cadarn.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gwneud defnydd da o ystod eang o adnoddau dysgu, gan gynnwys offer TG, offer digidol, cymhorthion gweledol, a deunyddiau bywyd go iawn, i gefnogi dysgu ac atgyfnerthu cysyniadau allweddol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gwybod yn dda beth yw anghenion eu dysgwyr, i ddechrau trwy ddatblygu proffiliau dysgwyr neu grwpiau defnyddiol, ac ar sail barhaus trwy sesiynau un i un neu diwtorial. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol, cofnodion dysgu digidol ac offer olrhain ADY i fonitro cynnydd a chefnogi datblygiad dysgwyr. Pan fyddant yn cael eu defnyddio'n dda, mae'r offer hyn yn galluogi tiwtoriaid i ymateb yn effeithiol i anghenion unigol dysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd o'r ddarpariaeth, mae mecanweithiau ar gyfer olrhain cynnydd dysgwyr a chofnodi a rhannu gwybodaeth am ADY yn anghyson. Mewn achosion o'r fath, nid oes gwybodaeth allweddol ar gael i diwtoriaid i'w galluogi i ddeall anghenion dysgu a chynllunio cymorth yn well.

### Ciplun ar addysgu dwyieithog

Mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg rhugl ar draws y bartneriaeth yn manteisio ar y ddarpariaeth naill ai'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn sesiynau dwyieithog, mae tiwtoriaid yn newid yn ddi-dor rhwng defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn dda ac yn gwneud defnydd da o ddeunyddiau addysgu, taflenni a chyflwyniadau dwyieithog. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn dweud bod defnyddio cyflwyno ac adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn eu sesiynau yn eu helpu i wella'u dealltwriaeth a'u defnydd o dermau Cymraeg o ddydd i ddydd.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio technegau holi effeithiol i ymestyn meddwl a dealltwriaeth dysgwyr. Mewn enghreifftiau cryfach, maent yn personoli cwestiynau dilynol i unigolion ac yn annog her a thrafodaethau iach rhwng dysgwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, mae tiwtoriaid yn colli cyfleoedd i ymestyn meddwl a datblygiad medrau dysgwyr naill ai drwy ateb eu cwestiynau eu hunain neu drwy roi gormod o gyfarwyddyd i ddysgwyr.

### Ciplun ar ddatblygu medrau Cymraeg ar gwrs cynorthwywyr addysgu

Mae'r bartneriaeth yn cynnal cwrs 'cyflwyniad i gynorthwywyr addysgu' sefydledig sy'n arfogi dysgwyr â'r medrau sydd eu hangen i weithio mewn amgylchedd ysgol. Mae tiwtoriaid yn addasu modelau cyflwyno i ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr ac yn dangos enghreifftiau o'r medrau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i ddod yn gynorthwyydd addysgu.

Mae llawer o ddysgwyr, sy'n aml ddim yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn gwella'u medrau Cymraeg i baratoi ar gyfer profiad gwaith. Trwy gydol y cwrs, maent yn datblygu dealltwriaeth well o faterion allweddol ac yn mireinio'u medrau trwy weithgareddau a lleoliadau gwaith efelychiadol. Ar ôl hyn, mae llawer ohonynt yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gyflogaeth gynaledig mewn ysgolion lleol.

Y data perfformiad cyhoeddedig diweddaraf ar gyfer y bartneriaeth yw Adroddiad Canlyniadau Dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2023. Mae hyn yn dangos mai'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymhwyster yn llwyddiannus arni ar gyfer y flwyddyn honno oedd 87%, sydd uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol, sef 84%.

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r bartneriaeth:

- Gryfhau'r trefniadau ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i sicrhau bod pob tiwtor yn gallu cael gwybodaeth i lywio, cynllunio, cymorth ac addysgu

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth yn dweud bod eu hyder, eu cymhelliant a'u hiechyd meddwl yn well o ganlyniad i ymgysylltu ag addysg. Maent yn gwerthfawrogi amgylcheddau dysgu sy'n gynhwysol, yn barchus ac yn emosiynol ddiogel, lle maent yn teimlo'n gyfforddus yn cymryd rhan. Mae dysgwyr yn amlygu gwerth bod yn rhan o gymunedau dysgu mor gadarnhaol a chefnogol, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd i addysg ar ôl anawsterau blaenorol. Mae dysgwyr SSIE sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig yn ffoaduriaid oherwydd rhyfel yn eu gwledydd cartref yn croesawu bod yn rhan o gymuned newydd lle maent yn cael cyfleoedd i rannu profiadau, dathlu eu diwylliannau, a gwneud ffrindiau newydd. Mae dysgwyr hŷn sydd wedi colli hyder yn sgil profedigaethau a chyfnodau estynedig o ynysu hefyd yn gwerthfawrogi'r modd mae profiadau dysgu'n eu helpu i adfer eu hunan-barch, ailgysylltu'n gymdeithasol, ac adennill ymdeimlad o ddiben yn eu bywydau bob dydd.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meithrin perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â dysgwyr ac yn eu hadnabod yn dda. Maent yn addasu darpariaeth fel mater o drefn i ddiwallu ystod eang o anghenion, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol ac iechyd meddwl. Mae dysgwyr yn dweud yn gyson eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu cynorthwyo, yn enwedig wrth reoli heriau fel gorbryder, cyfrifoldebau gofalu, neu hyder digidol isel. Mae tiwtoriaid yn addasu amseroedd sesiynau, adnoddau a gweithgareddau yn rhagweithiol i helpu dysgwyr i barhau i ymgysylltu. Er enghraifft, mewn sesiwn SSIE, mae dysgwyr yn elwa ar weithgaredd dysgu perthnasol sy'n canolbwyntio ar yswiriant car ar ôl i ddysgwr sôn am ymholiad yn yr ystafell ddosbarth. Mae awgrymiadau dysgwyr hefyd wedi dylanwadu ar gyflwyno gweithgareddau cyfoethogi, fel teithiau cerdded, peinitio

murluniau a dringo sy’n adlewyrchu diddordebau personol ac yn cynnal ffocws ar les dysgwyr.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar arweiniad personoledig gan diwtoriaid, gan gynnwys cyngor ar ddysgu pellach, llwybrau gyrfa ac atgyfeiriadau i gymorth allanol. Mae llawer ohonynt yn dweud bod yr arweiniad hwn yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE yn disgrifio’r modd mae cymorth a ddarperir gan y bartneriaeth wedi eu helpu i gymryd camau tuag at gyflogaeth, a dysgwyr eraill yn paratoi i symud ymlaen i ddilyn cyrsiau Safon Uwch neu i brifysgol. Mewn enghraifft arall, mae dysgwr a fu’n dilyn cwrs am resymau iechyd meddwl a lles i ddechrau, wedi mynd ymlaen i ymgymryd â rôl gweithiwr cymorth ar yr un rhaglen. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddysgwyr yn ansicr am gyfleoedd dilyniant, yn enwedig ar ddiwedd cyrsiau rhagflas anachrededig byr.

Mae ystod eang o weithgareddau cyfoethogi a lles yn cefnogi datblygiad ehangach dysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd ychwanegol, fel ymweliadau diwylliannol, gweithgareddau awyr agored a gwirfoddoli, sy’n ymestyn eu profiadau dysgu ac yn lleihau ynysigrwydd cymdeithasol. Mae dysgwyr ar raglenni SSIE yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel tripiau i Erddi Bodnant a digwyddiadau diwylliannol sy’n dathlu traddodiadau Cymreig, gan gynnwys Dawnsio Gwerin. Ffurfiwyd côr gan un grŵp o ddysgwyr SSIE o’r Wcráin dan arweiniad dysgwr sy’n arweinydd. Perfformiodd y côr mewn digwyddiad ar Bier Bangor, gan alluogi dysgwyr i rannu eu treftadaeth ddiwylliannol, cryfhau eu hyder a chysylltu â’r gymuned leol.

Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar amgylcheddau dysgu tawel a chroesawgar sy’n cefnogi eu hymgysylltiad a’u mwynhad mewn dysgu. Mae lleoliadau’n cynnwys lleoliadau cymunedol, hybiau dysgu canol tref Tŷ Cyfle, gerddi, ceginau ac ystafelloedd dosbarth a gweithdai mewn colegau. Mae’r rhain yn ofodau ffocysedig a gynhelir yn dda, y mae tiwtoriaid yn eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi’r agweddau ymarferol a lles ar ddysgu.

### Ciplun: Rysáit ar gyfer lles: dysgwyr yn cefnogi eu cymuned

Mewn un lleoliad cymunedol, mae dysgwyr hŷn ar gwrs coginio gartref yn elwa ar amgylchedd dysgu proffesiynol a phwrpasol. Gan ddefnyddio cynhwysion wedi’u rhoi, maent yn gweithio mewn parau i bwyso a mesur, gan ddatblygu medrau rhifedd yn naturiol trwy dasgau fel amcangyfrif, tynnu, a chynyddu a gostwng, gyda chymorth gan y tiwtor. Wrth i’r cwrs fynd yn ei flaen, mae dysgwyr yn magu hyder ac yn datblygu medrau coginio ymarferol. Cynhelir digwyddiad ar ddiwedd y profiad dysgu, lle mae dysgwyr yn paratoi ac yn gweini te prynhawn ar gyfer y busnesau sy’n rhoi cynhwysion. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dysgu tra’n meithrin ymdeimlad cryf o gymuned, diben a lles, a llawer o ddysgwyr yn dweud ei fod yn helpu lleihau unigrwydd ac yn meithrin cysylltiadau cymdeithasol.

Yn ddiweddar, lansiodd y bartneriaeth wefan sy'n ddefnyddiol ac yn hawdd i'w llywio sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o ddarpariaeth y bartneriaeth, ynghyd â gwybodaeth glir am leoliadau a sefydliadau partner ehangach. Er bod gan y platfform canoledig hwn y potensial i wella mynediad at wybodaeth ar draws y bartneriaeth, mae wedi bod yn fyw am gyfnod byr yn unig, ac mae'n rhy gynnar i fesur ei effaith gyffredinol.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dweud eu bod yn cael anawsterau yn cael mynediad at wybodaeth am gyrsiau neu gofrestru, yn bennaf lle mae'r rhain yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio systemau digidol. Mae'r dysgwyr hyn yn disgrifio heriau yn llywio platfformau ar-lein, yn enwedig lle maent yn cael mynediad cyfyngedig at ddyfeisiau neu mae ganddynt lefelau isel o hyder digidol. Er bod staff yn darparu cymorth i helpu dysgwyr yn aml – er enghraifft, trwy gynnig cymorth un i un neu gyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth leol – mae dulliau digidol yn unig yn parhau i fod yn rhwystr i ychydig o ddysgwyr. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn mynegi ffafriaeth am ddeunyddiau ar bapur neu ryngweithio wyneb yn wyneb i gael mynediad at wybodaeth am gyrsiau neu gwblhau prosesau cofrestru.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu lleoliadau dysgu. Maent yn disgrifio disgwyliadau clir ynghylch ymddygiad parchus ac yn dweud eu bod yn gwybod sut i godi pryder, os oes angen. Mae dysgwyr yn cyfeirio'n aml at yr ymddiriedaeth sydd ganddynt yn eu tiwtoriaid ac yn mynegi hyder yn eu hymatebion i faterion. Mae'r pwyslais ar barch ar y ddwy ochr a ffiniau clir yn nodwedd gyson ar draws y bartneriaeth.

Mae arferion diogelu yn briodol, a phob un o'r staff yn ymgymryd ag ystod o hyfforddiant diogelu addas ac yn dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch cadarn. Mae amryfal adnoddau diogelu a mecanweithiau cymorth i ddysgwyr fanteisio arnynt, sydd wedi'u cynnwys fel rhan o lawlyfrau ymsefydlu. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda a gyda phartneriaid eraill ar draws y rhanbarth ar lefel strategol i drafod materion diogelu, yn cynnwys radicaleiddio. Mae diogelu yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd strategol a gweithredol y bartneriaeth. Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r bartneriaeth:

- Egluro a diffinio llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr ar ddiwedd cyrsiau byr, anachrededig i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gamau nesaf priodol
- Archwilio dulliau hysbysebu a chofrestru amgen i leihau rhwystrau i ddysgwyr sydd â mynediad neu hyder digidol cyfyngedig

## Arwain a gwella

Mae gan y bartneriaeth weledigaeth strategol glir gyda ffocws cryf ar ehangu mynediad at ddysgu oedolion. Mae rhwydwaith y lleoliadau cyflwyno yn ymestyn i dros 50 o safleoedd,

erbyn hyn, gan gynnwys darpariaeth mewn cymunedau anghysbell a chanolfannau dysgu Tŷ Cyfle sy'n newydd neu wedi cael eu hailfrandio a'u hadnewyddu'n ddiweddar ym Mangor, Caernarfon a Chaergybi. Caiff amcanion strategol eu ffurfio ar y cyd trwy grwpiau strategol a gweithredol yn cynnwys Addysg Oedolion Cymru (AOC), Grŵp Llandrillo Menai (GLlM), a Chynghorau Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn helpu sicrhau bod darpariaeth yn ymatebol, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o gyllid allanol i gyflenwi lleoliadau gwledig fel neuaddau pentref â dodrefn modern a dyfeisiau digidol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr bellach yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu yn eu hardal gyfagos. Mae'r ddau bartner cyflwyno yn cydweithio'n effeithiol ar gynllunio lleoliadau ac alinio'r cwricwlwm. Mae hyn yn helpu lleihau dyblygu darpariaeth ac yn hwyluso ymatebion amserol i geisiadau gan y trydydd sector am ddarpariaeth ddysgu. Mae'r prif bartneriaid hefyd yn ymgysylltu ag ychydig o is-gontractwyr i gyflwyno cyrsiau datblygiad personol a lles.

Mae darpariaeth dysgu oedolion mewn rhannau o orllewin a de Gwynedd yn parhau i fod yn gyfyngedig oherwydd yr heriau yn yr ardaloedd gwledig hyn, sy'n denau eu poblogaeth. Mae'r bartneriaeth yn bwriadu mynd i'r afael â hyn, i wella mynediad a sicrhau cyfleoedd teg ar gyfer dysgwyr yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r partneriaid arweiniol yn hyblyg ac yn ymatebol o ran sut maent yn rheoli eu darpariaeth. Er enghraifft, mae AOC yn cymhwyso trothwyau is o ran isafswm niferoedd dysgwyr i adlewyrchu cyd-destunau cyflwyno gwledig, tra bod GLlM yn defnyddio tueddiadau data i addasu ei gynnig trwy derfynu cyrsiau mewn ardaloedd recriwtio is ac ymestyn darpariaeth mewn lleoliadau eraill cyfagos.

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn gwneud defnydd effeithiol o ddata sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth a gofnodir trwy ddangosfyrddau GLlM ac yn AOC trwy brosesau goruchwylio cyllideb. Mae'r ddau ddarparwr yn dechrau monitro a gwerthuso tueddiadau mewn cyfraddau dilyniant yn fwy systematig, ochr yn ochr â mesurau cyfraddau cadw a llwyddiant traddodiadol.

Yn ddiweddar, mae grŵp craffu Partneriaeth Gwynedd a Môn wedi uno â grŵp cyfatebol yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Mae'r grŵp sydd wedi uno yn cyfarfod yn rheolaidd â chadeirydd allanol i ddarparu goruchwyliaeth estynedig. Mae gan y bartneriaeth gylchoedd sicrhau ansawdd sefydledig, sy'n cynnwys arsylwadau, teithiau dysgu a thrafodaethau proffesiynol. Mae'r rhain yn llywio ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol, o ddiweddariadau gorfodol i themâu ehangach fel deallusrwydd artiffisial, medrau digidol a gwrth-hiliaeth. Mae menter 'Uchelgais Prosiect' GLlM yn gyrru a chefnogi gwelliant parhaus ar draws ei holl ddarpariaeth, tra bod AOC yn mabwysiadu model

arsylwi effeithiol yn seiliedig ar anghenion, sydd wedi'i deilwra i flaenoriaethau staff a chyrsiau.

Mae'r bartneriaeth yn casglu adborth dysgwyr trwy arolygon a fforymau, ac yn ystod teithiau dysgu (arsylwadau anffurfiol) yn ogystal, ac mae deilliannau'n bwydo i adroddiadau hunanasesu ac yn arwain at brofiadau gwell i ddysgwyr.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd cadarn yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad blaenorol o ddysgu oedolion yn y gymuned. Yn benodol, ehangwyd darpariaeth gymunedol i ymateb i angen lleol. Gwneir cynnydd parhaus o ran cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, llais y dysgwr a strategaethau marchnata.

Yn GLlM, mae symudiadau diweddar tuag at strategaeth farchnata fwy canoledig wedi arwain at ddileu tudalennau ar gyfryngau cymdeithasol lleol. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar hygyrchedd lleol ac ymwybyddiaeth o wybodaeth ynghylch argaeledd cyrsiau. Gwerthfawrogir canolfannau Tŷ Cyfle am eu lleoliadau hygyrch, eu hamgylcheddau mewnol croesawgar a'u cymorth cryf i ddysgwyr. Ar hyn o bryd, nid yw'r canolfannau hyn yn cyfleu amrywiaeth eu cynnig yn gwbl effeithiol, ac nid yw dysgwyr a darpar ddysgwyr bob amser yn gwybod am ystod lawn yr hyn sydd ar gael.

### Ciplun ar ganolfannau dysgu Tŷ Cyfle, ehangu mynediad a helpu mynd i'r afael â dirywiad trefol

Mae gan ganolfannau Tŷ Cyfle rôl allweddol mewn ehangu mynediad at ddysgu oedolion trwy gynnig amgylcheddau cymunedol croesawgar sy'n cefnogi lles dysgwyr ac yn lleihau rhwystrau rhag cyfranogi. Mae eu lleoliadau trefol hygyrch, eu cyflwyno hyblyg a'u hawyrgylch cynhwysol yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o berthyn, sy'n eu gwneud yn hybiau effeithiol ar gyfer ailymgysylltu, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n llai tebygol o fynychu lleoliadau colegau traddodiadol.

Mae GLlM wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i addasu ac ailddatblygu'r adeiladau hyn nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Mae Tai Cyfle yn gyfraniad strategol defnyddiol i ymdrechion lleol i adfywio ardaloedd trefol.

Caiff y Gymraeg a'i diwylliant eu hymgorffori'n dda ar draws y cwricwlwm. Cyflwynir llawer o ddosbarthiadau'n ddwyieithog, ac mae capasiti cynyddol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gefnogir gan hyfforddiant staff, cyfieithu mewnol, a thargedau cyflwyno ar lefel ganolraddol.

Mae gan AOC a GLlM fecanweithiau defnyddiol ar waith i gefnogi lles staff, ac maent yn darparu datblygiad proffesiynol ymatebol a pherthnasol ar gyfer staff. Caiff y rhan fwyaf o staff fanteisio ar hyfforddiant gorfodol perthnasol, gweithdai teilwredig a rhwydweithiau cymheiriaid cefnogol, er bod ychydig o diwtoriaid rhan-amser, yn enwedig y rhai mewn

lleoliadau anghysbell neu rai sy'n gweithio oriau cyfyngedig, yn dweud eu bod yn teimlo'n ynysig ac yn ei chael yn anodd mynychu hyfforddiant neu ymgysylltu â chymheiriaid.

Mae hyfforddiant wedi mynd i'r afael â thestunau lles ehangach hefyd, fel y menopos, rheoli straen a gwrthdaro, gyda mwy o hyfforddiant ar ddulliau adferol, deallusrwydd artiffisial a gwrth-hiliaeth a ddatblygwyd i ymateb i adborth dysgwyr a thiwtoriaid. Caiff effaith yr hyfforddiant ei gwerthuso'n dda trwy deithiau dysgu, arsylwadau anffurfiol, trafodaethau proffesiynol a gwerthusiadau cyrsiau.

Nid yw'r bartneriaeth yn gwneud defnydd llawn o gyfleoedd i rannu hyfforddiant proffesiynol rhwng darparwyr mewn pynciau a gyflwynir gan y ddau bartner, fel medrau a chelfyddydau digidol, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfnewid arfer effeithiol a dysgu proffesiynol ar y cyd yn y meysydd hyn.

Er mwyn gwella ymhellach, dylai arweinwyr y bartneriaeth ganolbwyntio ar y canlynol:

- parhau i wella mynediad a sicrhau cyfleoedd teg ar gyfer dysgwyr yng ngorllewin a de Gwynedd
- cryfhau cyfathrebu â dysgwyr a darpar ddysgwyr yn y Tai Cyfle i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd addysg oedolion sydd ar gael
- sicrhau bod pob un o'r staff rhan-amser, yn enwedig y rhai mewn lleoliadau gwledig ac sy'n gweithio nifer fach o oriau addysgu, yn cael cyfle i fanteisio'n ddigonol ar ddatblygiad proffesiynol a rhwydweithiau cymheiriaid
- datblygu rhwydweithiau dysgu proffesiynol ar draws y bartneriaeth er mwyn gallu rhannu arfer effeithiol, yn enwedig mewn meysydd pwnc cyffredin fel medrau digidol a'r celfyddydau

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr a’r holiadur i staff
- yn adolygu data ar berfformiad cyhoeddedig y bartneriaeth

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, swyddogion yr awdurdodau lleol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn arsylwi sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2025